

## Trawsgrifiad Fideo TB Buchol a sut i ddefnyddio tudalen we ibTB

Fideo: <https://www.youtube.com/watch?v=gt7C0XnDdKw>

### Beth yw Information bTB (ibTB)?

Mae Information bTB neu ibTB yn offeryn mapio rhyngweithiol mynediad agored sy'n dangos lleoliad achosion o dwbercwlosis buchol yng Nghymru a Lloegr dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae gwefan ibTB wedi'i chynllunio er mwyn helpu ceidwaid gwartheg a'u milfeddygon i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth i ddiogelu eu buchesi rhag TB buchol. I ddefnyddio ibTB, ewch i'r gwefan [www.ibtb.co.uk](http://www.ibtb.co.uk), neu gallwch gael mynediad drwy T Bhub.

### 1) Sut rydwi'n defnyddio'r map?

Gall defnyddwyr chwyddo i mewn ac allan o'r map gan ddefnyddio'r botymau plws a minws sydd yn y gornel ar frig yr ochr chwith, neu drwy ddefnyddio'r holl ddulliau arferol ar gyfer dyfais symudol, megis clicio dwbl, tapio dwbl neu binsio);

Gallwch dremio drwy lusgo'r sgrin.

Gallwch ddychwelyd at y map gwreiddiol wedi chwyddo allan unrhyw bryd drwy wasgu'r botwm hafan

### 2) Sut rydwi'n dewis achosion o TB i'w dangos?

Mae sgrin arddangos gychwynnol ibTB yn dangos yr holl achosion presennol (neu barhaus) o TB. Gellir ei newid drwy addasu paramedrau 'Achosion bTB' (mae hwn wedi'i leoli o dan y ddewislen ar yr ochr chwith ar ddyfeisiau symudol).

Mae sgrin arddangos gychwynnol ibTB yn dangos yr holl achosion presennol neu barhaus o TB. Gellir ei newid drwy addasu paramedrau achosion bTB. Gellir dewis naill ai achosion parhaus neu bob achos ar sail pob blwyddyn neu achosion a ddechreuwyd mewn blwyddyn benodol. Ar ôl dewis, gwasgwch y botwm diweddarar map i ddangos y data a ddewiswyd. Noder y bydd yr opsiwn pob blwyddyn ar gyfer achosion agored o TB yn cyfuno'r holl achosion agored o TB, ni waeth pryd y gwnaethant ddechrau. Mae'r opsiwn pob blwyddyn ar gyfer achosion sydd wedi cau yn cyfuno'r holl achosion o TB a ddechreuodd yn y 10 mlynedd blaenorol. Caiff y data yn ibTB eu diweddarar tua phob pythefnos. Caiff data ar achosion o TB eu dangos hyd at y dyddiad a nodir ar waelod y bar ymyl. Mae hyn yn golygu na fydd unrhyw achosion diweddar o TB ar ôl y dyddiad a nodir yn cael eu dangos.

“Caiff y data yn ibTB eu diweddarar tua phob pythefnos. Dangosir data ar achosion o TB hyd ar y dyddiad a nodir yma (llun wedi chwyddo i mewn o'r wybodaeth am ddyddiad ar y tab ar yr ochr chwith), mae hyn yn golygu na fydd unrhyw achosion diweddar o TB ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu dangos eto.

### 3) Sut rydwi'n dangos manylion achos o TB?

Ar gyfer clystyrau o achosion o 20 neu lai neu achosion unigol, gellir dangos dyddiadau Dechrau (TB2) a gorffen (TB10) yr achos drwy glicio ar y cylch neu'r dot. Ar gyfer clystyrau, gallwch ddarllen drwy'r achosion drwy glicio ar y saethau ar ben y blwch.

### 4) Sut rydwi'n chwilio am Rif y Daliad neu god post?

Gellir chwilio am Rif y Daliad yng Nghymru neu Loegr drwy'r cyfleuster chwilio, sef y chwyddwydr yn y gornel ar frig yr ochr chwith. Mae clicio ar y gwymplen yn rhoi'r dewis i chi chwilio yn ôl Rhif y Daliad neu god post.

Wrth i chi ddechrau teipio'r term chwilio yn y blwch mewmbwn bydd rhestr o ganlyniadau yn ymddangos islaw.

Dewiswch ganlyniad o'r rhestr a chliciwch ar y botwm chwilio i ganoli'r map.

Noder bod y chwiliad yn canoli'r map yn syml naill ai ar Rif y Daliad neu'r cod post. Nid yw'n chwilio am achos o TB.

### 5) I newid y map sylfaen...

Gallwch newid y dewis drwy'r gwymplen 'Map Sylfaen' ac yna bwysu'r botwm 'Diweddarar Map'.

### 6) Sut rydwi'n gweld Unedau Pesgi Cymeradwy?

Gallwch weld Unedau Pesgi Cymeradwy drwy glicio ar y botwm toglo i'r dde o'r opsiwn 'Unedau Pesgi Cymeradwy' a phwyso'r botwm 'Diweddarar Map'. Mae'r botwm toglo i ddangos Unedau Pesgi Cymeradwy ond yn weithredol pan fyddwch wedi chwyddo i mewn i'r map, ac ni fydd yn weithredol o'r sgrin hafan. Mae'r opsiwn hwn yn dangos yr holl Unedau Pesgi Cymeradwy cyfredol fel sgwariau porffor. Cliciwch ar y sgwâr i ddangos Rhif Daliad yr Uned Besgi Gymeradwy a dolen i gael rhagor o wybodaeth.

### 7) Diweddariadau diweddar a gwybodaeth ychwanegol

Yn ystod gwanwyn 2020, caiff gwefan ibTB ei diweddarar gyda nifer o fân newidiadau. Mae'r rhain yn cynnwys grid newydd dros y map a hyd at 10 mlynedd o ddata ar achosion o TB. Mae tab dolenni newydd hefyd wedi cael ei ychwanegu at frig y dudalen. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am ibTB, cysylltwch ag adran gymorth ibTB drwy glicio ar y botwm cyswllt yn y bar llywio.

### 8) Crynodeb terfynol

I ddefnyddio ibTB ewch i [www.ibTB.co.uk](http://www.ibTB.co.uk) ac i gael rhagor o wybodaeth am TB buchol ewch i TB Hub yn [tbhub.co.uk](http://tbhub.co.uk)